WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016 – **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 183A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn gosod allan yr arfer i'w ddilyn wrth drin ceisiadau a ddisgwylir o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori gyda thrydydd partïon perthnasol. Yng nghyswllt y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y tîm a'm helpodd i baratoi'r adroddiad hwn oedd Mandy Townsend, Andrew Doughton, Matthew Edwards, Dave Thomas, a Mike Usher

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad 4

Adroddiad manwl

Am yr adroddiad hwn 8

Adran 1: Archwilio'r cyfrifon 9

Cyhoeddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd, er i mi, wrth wneud hynny, dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater a gosod adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio 9

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 11

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro ac adrodd am berfformiad yn erbyn ei gyllidebau a'i gynlluniau arbedion yn effeithiol, er ei fod yn dra annhebygol o gael cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2016-17 12

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gosod rhai sylfeini cadarn i sicrhau ei ddyfodol, ac y mae cyflymdra'r newid yn cynyddu, er bod cryn waith i'w wneud eto mewn meysydd pwysig 15

Mae fy ngwaith o archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn meysydd allweddol 19

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 22

Atodiad 2 – ffi archwilio 23

Atodiad 3 – risgiau archwilio arwyddocaol 24

# Crynodeb o'r adroddiad

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wneuthum ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith a wneuthum yn y Bwrdd Iechyd yn caniatáu i mi gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yng nghyswllt archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth yn ei defnydd o adnoddau.

3 Mae fy n gwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol arwyddocaol sydd yn wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae mwy o fanylion am agweddau penodol f'archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddais yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunwyd ar eu cywirdeb ffeithiol gyda'r swyddogion a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Dangosir yr adroddiadau a gyhoeddais yn Atodiad 1.

4 Cytunwyd ar yr adroddiad hwn o ran cywirdeb ffeithiol gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynir i gyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror 2017 a darperir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Argymhellwn yn gryf fod y Bwrdd Iechyd yn lledaenu ac yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Wedi iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Crynhoir negeseuon allweddol fy ngwaith archwilio dan y penawdau canlynol.

### Adran 1: archwilio'r cyfrifon

6 Cyhoeddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd, er i mi, wrth wneud hynny, dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater fel sydd wedi eu gosod allan yn Arddangosyn 1 yr adroddiad hwn. Hefyd, gosodais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae f'adroddiad yn esbonio'r ddwy ddyletswydd ariannol a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn, a'r oblygiadau am 2016-17.

7 Deuthum i'r casgliad hefyd fod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi yn iawn a'u bod yn sylweddol gywir. Ni ddaeth fy ngwaith o hyd i unrhyw wendidau perthnasol yng nghamau rheoli'r Bwrdd Iechyd sydd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

8 Ni ddaeth y Bwrdd Iechyd i gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2015-16. Rwy'n gosod allan fwy o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

9 Adolygais drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth yn ei ddefnydd o'i adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith asesu strwythuredig, a archwiliodd drefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethiant a sicrwydd, a'r cynnydd a wnaed o ran y materion gwella a nodwyd llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol o gyflwyno gwasanaeth gan gynnwys cyfarpar meddygol a dilyniant i'm hadroddiadau blaenorol ar y contract meddygon ymgynghorol. Arweiniodd y gwaith hwn i mi ddod i'r casgliadau canlynol:

### Wrth adolygu trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, canfûm ei fod yn parhau i fonitro ac adrodd am berfformiad yn erbyn ei gyllidebau a'u cynlluniau arbedion yn effeithiol, er ei fod yn dra annhebygol o ddod i gydbwysedd ariannol erbyn diwedd 2016-17

10 Canfûm fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cynllunio ariannol digonol, ond mae'r cyllidebau yn adlewyrchu'r model gwasanaeth cyfredol, ac nid ydynt wedi eu llunio gan strategaeth glinigol glir tymor-hir, na chynllun tymor canol integredig (CTCI). Am 2016-17, cytunodd y Bwrdd Iechyd ar ddiffyg cynlluniedig o £30 miliwn. Mae'r rhagolygon diwedd blwyddyn ar hyn o bryd yn aros yn unol â'r cynlluniau, gyda pheth cyllido ariannol ychwanegol am y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, nid yw cynlluniau ariannol yn dangos sefyllfa gynaliadwy. Yn niffyg parhaus cyfeiriad strategol a chynlluniau gwasanaeth clinigol a gweithlu cysylltiedig, nid yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi sefydlu agwedd gadarn a chynaliadwy tuag at reolaeth ariannol yn 2016-17 ac y mae'n dra annhebygol o ddod i gydbwysedd ariannol am y flwyddyn ariannol hon, gyda rhagolwg am ddiffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn.

11 Ni nododd f'adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2015-16 unrhyw wendidau perthnasol yng nghamau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, Deuthum i'r casgliad fod camau rheoli'r Bwrdd Iechyd am bob blwyddyn yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau stiwardiaeth briodol, a dylai cyflwyno Fframwaith Sicrwydd Ariannol yn ddiweddar roi sicrwydd cadarnach a mwy systemaidd i'r Pwyllgor Archwilio.

12 Adroddais fod gwybodaeth ariannol briodol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd fel sail o wybodaeth, a bod adrodd ariannol i'r Bwrdd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr, a'i fod wedi ei strwythuro'n dda. Fodd bynnag, mae lle i wella gyda phrydlondeb adroddiadau ariannol a gyflwynir i'r Bwrdd, er y pennir hyn yn awr gan y cylch busnes, ac y mae hyn, yn briodol, yn mynnu bod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar yr adroddiadau cyn i'r Bwrdd eu hystyried.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn gosod rhai sylfeini cadarn i sicrhau ei ddyfodol, ac y mae cyflymdra'r newid yn cynyddu, er bod cryn waith i'w wneud eto mewn meysydd pwysig

13 Adnewyddodd y Bwrdd Iechyd ei strategaeth a'i drefniadau cynllunio, gan fynd ati i ddwyn y Bwrdd i mewn a mabwysiadu agweddau sydd yn cynnwys cyd-gynhyrchu, cynllunio senario seiliedig ar dystiolaeth, canolbwynt cryf ar ymwneud, ac agweddau o wireddu manteision. Er mwyn cefnogi cynllunio ar lefel isadran, mae tîm cynllunio canolog y Bwrdd Iechyd hefyd yn hwyluso ac yn rhoi sicrwydd ansawdd ar ddatblygu cynlluniau ar lefel isadran.

14 Mae cynllun ar y cyd sy'n glir a chytunedig er mwyn datblygu strategaeth i'r sefydliad cyfan, a strategaethau cefnogol, gyda chynlluniau cyfathrebu yn sail iddynt. Mae cyfres gyflin o ffrydiau gwaith wrthi er mwyn datblygu ac ehangu'r cysyniad o 'sut beth fydd y gwasanaethau'. Dysgodd y Bwrdd Iechyd o'i brofiadau ynghylch gwasanaethau mamolaeth yn 2015, ac y mae'n mabwysiadu arddull fwy agored a thryloyw dan arweiniad y Prif Weithredwr i adfywio ei hagwedd at ymwneud gyda staff a grwpiau clinigol megis Fforwm y Proffesiynau Iechyd, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol.

15 Mae'r fframwaith newydd ar gyfer strategaeth a chynllunio yn addawol, er nad yw eto wedi cyflwyno cyfres eglur o gynlluniau sydd eu hangen i gynnal nodau strategol y sefydliad ac adnabod modelau cyflwyno gwasanaeth sydd yn gynaliadwy yn glinigol ac ariannol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gynllun blynyddol am 2017-18, gyda'r nod o gyflwyno CTCI y gellir ei gymeradwyo yn gynnar yn 2018 am gyfnod 2018-2021.

16 Mae effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gwella, er bod angen mwy o waith i fireinio fframwaith sicrwydd y bwrdd. Bu'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei system o sicrwydd a'i ddealltwriaeth o ystyr hyn dros y blynyddoedd diwethaf. Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd drefniadau sicrwydd y bwrdd, gan ddatblygu Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol (FfRSC) fel ateb interim pragmataidd yn niffyg CTCI cytunedig er mwyn cael ffordd gliriach o fapio sicrwydd. Mae fy arsylwadau parhaus ac arolwg o aelodau'r bwrdd yn dangos mwy o aeddfedrwydd a hyder yn nhrefniadau'r bwrdd a'r pwyllgorau.

## Mae fy ngwaith o archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn meysydd allweddol

17 Yr oedd fy rhaglen waith yn cynnwys adolygu rheolaeth cyfarpar meddygol a dilyniant i'm hadolygiadau blaenorol o gontractau meddygon ymgynghorol. Dyma fy nghasgliadau:

- Mae gwaith cynnal cyfarpar meddygol o ddydd i ddydd yn cael ei reoli yn weddol, ac y mae systemau effeithiol, seiliedig ar risg, i flaenoriaethu gwario cyfalaf. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer cyfarpar cost-isel mor glir, ac nid oes gan y Bwrdd Iechyd stocrestr ddiffiniol o gyfarpar meddygol.
- Gwnaeth y Bwrdd iechyd beth cynnydd wrth gynllunio swyddi, ond ni weithredwyd yr un o'm hargymhellion cenedlaethol a lleol blaenorol yn llawn.

18 Yr wyf yn cydnabod yn ddiolchgar gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr ymchwiliad.

# Adroddiad manwl

## Am yr adroddiad hwn

19 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn am 2016 i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn gosod allan ganfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wneuthum rhwng misoedd Ionawr a Rhagfyr 2016.

20 Gwneir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion sy'n cael eu gosod allan yn Neddf 2004[1]. Mae'r ddeddf honno yn mynnu fy mod yn gwneud y canlynol:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynir i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun y cymhwyswyd y gwariant a'r incwm y mae a wnelo'r cyfrifon â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n rheoli hynny; a

c) bodloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol am sicrhau darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ei defnydd o adnoddau.

21 O ran (c), cefais sicrwydd neu fel arall o'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau rheolaeth ariannol, llywodraethiant a sicrwydd;
- archwiliadau archwilio perfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd; a
- chanlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau.

22 Cyhoeddais nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynir mewn adroddiadau mwy manwl, ac y mae rhestr o'r rhain yn Atodiad 1.

23 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: archwiliad o'r cyfrifon
- Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

24 Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf ar y ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol gwneud fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a osodwyd allan yng Nghynllun Archwilio 2016.

25 Yn olaf, mae Atodiad 3 yn gosod allan y risgiau archwilio ariannol arwyddocaol a amlygwyd yn fy Nghynllun Archwilio yn 2016 a sut yr ymdriniwyd â hwy trwy'r archwiliad.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: archwilio'r cyfrifon

26 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd am 2015-16. Trwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn arddangos ei berfformiad ariannol ac yn gosod allan ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol o arddangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

27 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae gofyn i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi golwg gywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ac o'i incwm a gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiad sylweddol – boed hynny wedi ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad;
- a ydynt wedi eu paratoi yn unol â gofynion statudol ac eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol o ran cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan hwnnw o'r adroddiad cydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi ei baratoi yn iawn; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

28 Wrth roi'r farn hon, yr wyf wedi cydymffurfio â'm Cod o Arfer Archwilio a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs).

## Cyhoeddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd, er i mi, wrth wneud hynny, dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater a gosod adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi yn iawn ac y maent yn sylweddol gywir

29 Paratowyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer eu harchwilio erbyn y terfyn amser cytunedig o 29 Ebrill 2016 ac yr oeddent o safon uchel. Ar waethaf y terfyn amser heriol, cefais fod y wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfrifon yn berthnasol, dibynadwy a sylweddol gyflawn. Mae f'adroddiad sylweddol yn esbonio'r ddwy ddyletswydd ariannol statudol cymwys o 2014-15 ymlaen, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn am 2015-16, a'r oblygiadau ar gyfer 2016-17.

30 Mae ISA 260 yn mynnu fy mod yn adrodd am faterion yn deillio o'm gwaith i'r sawl sydd â'r ddyletswydd o lywodraethiant cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio am y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymwneud Archwilio Ariannol am y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 31 Mai 2016.

31 Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a osodir allan yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Methodd y Bwrdd Iechyd â chwrdd â tharged Polisi Perfformiad Sector Cyhoeddus (PPSC) Llywodraeth Cymru o dalu 95 y cant o gredydwyr heb fod yn rhai'r GIG o fewn 30 diwrnod o gyflwyno. | Gwelodd fy adolygiad o'r prosesau am adrodd am berfformiad yn erbyn y targed PPSC gyfleoedd i gryfhau mwy ar ganllawiau Llywodraeth Cymru a threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gweithio allan ei berfformiad talu, gan gynnwys:<br>• gwneud sail pennu'r dyddiad talu yn gliriach;<br>• datrys mân wallau yn yr adroddiad a gynhyrchwyd i weithio allan y perfformiad; ac<br>• ymdrin â cham-neilltuo taliadau 'Cadwyn Gyflenwi'r GIG' fel rhai 'heb fod yn rhai GIG' yn yr adroddiad perfformiad 12 mis a gynhyrchwyd gan y system cyfrifon taladwy.<br>Deuthum i'r casgliad, ar waethaf y problemau yr adroddwyd amdanynt, mai isel iawn yw'r risg fod perfformiad y Bwrdd Iechyd yr adroddwyd amdano wedi ei gam-ddatgan yn sylweddol. |
| Nid oedd gweithdrefnau cymryd stoc y Bwrdd Iechyd yn wastad yn cael eu dilyn. | Gwelais ddwy enghraifft lle nad oedd gweithdrefnau cymryd stoc y Bwrdd Iechyd wedi eu dilyn. Derbyniodd y rheolwyr fy argymhelliad ar gyfer cryfhau eu gweithdrefnau sicrhau ansawdd cymryd stoc yn 2016-17, er mwyn sicrhau y pennir datgeliad y stocrestrau yn unol â pholisi a gweithdrefnau cyfrifo'r Bwrdd Iechyd fel y'u datganwyd. |
| Triniaeth gyfrifo trefniadau prydlesi gwaddol o gyrff rhagflaenu. | Rhwng 2012-13 a 2014-15 adroddais am broblem ynghylch y dull y triniwyd cyfrifo trefniadau prydles waddol am Ysgol Nyrsio Fron Heulog ym Mhrifysgol Bangor, a etifeddwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys yn 2009. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i adolygu'r modd y triniwyd Fron Heulog a threfniadau gwaddol eraill fel mater o frys er mwyn sicrhau datgeliad llawn a phriodol yn natganiadau ariannol 2014-15. Gwnaed peth cynnydd i ddatrys y mater, ond nid ymdriniwyd yn llwyr ag ef eto. Ar sail y wybodaeth oedd ar gael i ni, deuthum i'r casgliad nad oedd y datganiadau ariannol wedi eu cam-ddatgan yn sylweddol. Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd y bydd y mater yn cael ei setlo yn 2016-17. |

32 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais hefyd yr adolygiadau canlynol:

- cofnod Cyfrifon Llywodraethu Cyfan – deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gydgrynhoi y parti i'r contract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2016 ac y paratowyd y cofnod yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
- chrynodeb o ddatganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol – deuthum i'r casgliad fod y crynodeb o'r datganiadau yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr adroddiad blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

33 Paratowyd y drafft o ddatganiadau ariannol elusennol y Bwrdd Iechyd am 2015-16 ym mis Medi 2016. Cyhoeddais farn ddiamod ar y datganiadau ariannol elusennol ar 13 Rhagfyr 2016.

### Yr oedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol

34 Adolygais gamau mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn fy marn i yn berthnasol i'w archwiliad i'm helpu i adnabod, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiadau sylweddol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni wneuthum eu hystyried at ddibenion mynegi barn am effeithiolrwydd gweithredol y camau rheoli mewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion arwyddocaol yng nghamau rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd.

35 Daeth fy adroddiad dilynol i'r adroddiad yn 2015 o drefniadau caffael y Bwrdd Iechyd i'r casgliad yr ymdriniwyd â'm hargymhellion blaenorol am ddefnyddio ac adrodd am ildio hawliau tendr sengl a bod y trefniadau yn parhau i esblygu. Gwelais gyfleoedd i gryfhau mwy ar y trefniadau trwy sicrhau bod ffurflenni Ildio Hawliau Tendr Sengl yn cael eu cwblhau'n llawn a'u bod yn cael eu derbyn yn unig ar ôl derbyn yr awdurdod iawn. Argymhellais hefyd ddatblygu sut yr adroddir am ddefnyddio Ildio Hawliau Tendr Sengl yn Adroddiad Cydymffurfio Adrannol y Bwrdd Iechyd.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

36 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Cynheliais amrywiaeth o fathau o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Golygodd y gwaith hwn y canlynol:

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflwyno cynlluniau i arbed costau a'u cyfraniad i gyrraedd cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethiant a sicrwydd y Bwrdd Iechyd trwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed i ymdrin â'r argymhellion asesu strwythuredig a wnaed llynedd;
- adolygu archwilio lleol penodol ar gyfarpar meddygol; ac
- asesu'r cynnydd a wnaeth y Bwrdd Iechyd wrth ymdrin â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar y contract meddygon ymgynghorol.

37 Crynhoir y prif ganfyddiadau o'r gwaith hwn dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro ac adrodd am berfformiad yn erbyn ei gyllidebau a'i gynlluniau arbedion yn effeithiol, er ei fod yn dra annhebygol o gael cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2016-17

38 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd i gyrraedd cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Yr wyf wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, yr agwedd at gynllunio ariannol, camau rheoli a stiwardiaeth ariannol a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Crynhoir fy nghanfyddiadau allweddol isod.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cynllunio ariannol blynyddol digonol, ond mae cyllidebau yn adlewyrchu'r model gwasanaeth cyfredol, nid ydynt wedi eu llunio gan strategaeth glir na chynlluniau ariannol at y tymor hir ac nid ydynt yn arddangos sefyllfa gynaliadwy

39 Cyflwynodd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf) drefn gyllido fwy hyblyg ar gyfer y GIG yng Nghymru. Rhoes ddyletswydd ariannol gyfreithiol newydd ar fyrddau iechyd lleol i adennill costau dros dair blwyddyn ariannol dreigl yn hytrach na phob un flwyddyn. Mae'r hyblygrwydd ariannol, fodd bynnag, yn dibynnu ar allu cyrff y GIG i baratoi CTCI digon cadarn, a chymeradwyo'r cynlluniau hynny yn ffurfiol gan Weinidogion Cymru.

40 Dylai'r Bwrdd Iechyd fod mewn sefyllfa i elwa o'r hyblygrwydd ychwanegol a ddarperir gan y Ddeddf, ond methodd â chwrdd â'i ail ddyletswydd ariannol i fod â CTCI tair-blynedd cymeradwy yn ei le am y cyfnod 2014-15 i 2016-17. O ganlyniad, yr oedd y Bwrdd Iechyd yn torri'r ddyletswydd statudol newydd hwn, ac ni allodd fanteisio'n llawn ar yr hyblygrwydd ariannol sydd ar gael dan y Ddeddf.

41 Yn niffyg CTCI a gymeradwywyd, nid yw cyllidebau wedi eu llunio gan Strategaeth glir am y tymor hir. Hyd yma, ychydig o gynnydd a wnaed i ddatblygu modelau gwasanaeth sydd yn ariannol a chlinigol gynaliadwy, ynghyd ag integreiddio mwy ar wasanaethau cefnogi. Yn lle hyn, cynhyrchodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Ariannol

Interim 2016-17 oedd yn cynnwys oblygiadau ariannol parhau â'r model gwasanaeth cyfredol ynghyd ag unrhyw lefelau twf disgwyliedig ac o ganlyniad i chwyddiant ochr yn ochr â'r arbedion trafodaethol oedd yn cael eu cynnig. Adroddais y byddai'r cynllun ariannol blynyddol am 2017-18 ar ei ennill o gael ei gysylltu'n fwy clir â chynlluniau gwasanaeth a gweithlu, fel rhan o baratoi ar gyfer cynllunio integredig am y tymor canol.

42 Ar waethaf diffyg strategaeth glir tymor-hir, canfûm fod swyddogaethau a chyfrifoldebau cynllunio ariannol yn glir ac yn cael eu deall. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar gyfer gosod cyllidebau refeniw a chyfalaf sydd ar sylfaen Fframwaith Cynllunio Cyllideb.

Yn niffyg cyfeiriad strategol a chynlluniau gwasanaeth clinigol a gweithlu cysylltiedig, nid yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi sefydlu agwedd cadarn a chynaliadwy at reolaeth ariannol yn 2016-17 ac y mae'n dra anhebygol o gyrraedd cydbwysedd ariannol am y flwyddyn ariannol hon

43 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Nododd ei Gynllun Gweithredol Blynyddol am 2016-17, ddiffyg a ragwelwyd o £30.0 miliwn, sef diffyg sylfaenol o £44.2 miliwn a gwarged gweithredol o £14.2 miliwn, ar ôl cyflwyno arbedion a ragwelwyd o £30.0 miliwn.

44 Cyn hyn, adroddais am yr angen am gynllunio gwasanaeth trawsnewidiol, a thystiolaeth o hyn yw sefyllfa ariannol heriol y Bwrdd Iechyd. Mae'n galonogol gweld gwelliannau yn rheolaeth yr arbedion bob blwyddyn dan arweiniad y Swyddfa Rheoli Rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys prosesau i nodi a chyflwyno arbedion ar raddfa fawr a chryfhau goruchwylio cyflwyno cynlluniau arbed.

45 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod rhaglenni arbed yn parhau i ddatblygu gyda chyflwyno 'fframwaith bwrdd rhaglen' o nifer o ffrydiau gwaith strategol sy'n bwydo i mewn i 10 bwrdd rhaglen. Mae gan yr holl gynlluniau arbedion arweinydd gwasanaeth sydd yn goruchwylio datblygu dogfen cychwyn prosiect sydd yn galw am gynnal asesiadau effaith ansawdd, gan ofalu bod ystyriaeth yn cael ei roi i oblygiadau ansawdd a diogelwch.

46 Ar ddiwedd Rhagfyr 2016, rhagwelodd y Bwrdd Iechyd y byddai ei orwario blynyddol mwyaf tebygol yn parhau yn £30 miliwn. Yr oedd yn cydnabod fod cyrraedd y diffyg a ragfynegwyd yn dal i fod yn gryn her. Yn y nawfed mis, yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau arbed rhyddhau arian o £30.6 miliwn, gyda £23.0 miliwn yn gylchol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld cyflwyno arbedion o £32.2 miliwn yn 2016-17, ac erbyn diwedd Rhagfyr 2016, adroddodd ei fod wedi cyflwyno gwerth £22.7 miliwn o'r arbedion rhyddhau arian yn erbyn arbedion cynlluniedig o £22.1 miliwn.

47 Erys cryn bwysau ariannol mewn Gofal Eilaidd ac Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gyda gorwariant cronnus o £5.3 miliwn a £6.0 miliwn yn y nawfed mis. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae costau asiantaeth i lenwi swyddi gwag neu i

ymdrin â phroblemau ansawdd a diogelwch yn gryn her i'r Bwrdd Iechyd, gyda chostau misol cyfartalog o ryw £3.8 miliwn yn y nawfed mis.

48 I edrych ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Gyda'r diffyg o £30 miliwn yn y gyllideb yn 2016-17, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg a gydgasglwyd o £76.1 miliwn am y cyfnod tair blynedd yn diweddu 31 Mawrth 2017, gan fethu yn ei ddyletswydd statudol o gydbwyso ei incwm gyda'i wariant dros y cyfnod hwnnw. Hyd yma, cynnydd cyfyngedig yn unig fu ar yr angen dybryd i ddatblygu modelau gwasanaeth ariannol a chlinigol gynaliadwy, ynghyd a mwy o gefnogaeth i integreiddio'r gwasanaeth. Mae'r sefyllfa ariannol hon yn golygu risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn torri ei ddyletswydd ariannol dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

### Mae camau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd am y flwyddyn yn gweithredu'n effeithiol i sicrhau stiwardiaeth briodol, a dylai cyflwyno'r Fframwaith Sicrwydd Ariannol newydd yn ddiweddar roi sicrwydd cryfach a mwy systemaidd i'r Pwyllgor Archwilio

49 Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd wedi eu gosod allan yn glir yn ei Fframwaith Cynllunio Cyllideb, ac yn sylfaen i hyn mae cyfarwyddiadau ariannol sefydlog sy'n cael eu cyfoesi, a chynllun dirprwyo. Mae swyddogaethau rheolwyr cyllidebau wedi eu diffinio'n dda, ac y mae Cytundebau Atebolrwydd Blynyddol ar gael; gwnaed cynnydd da yn 2016 gyda'r holl reolwyr cyllidebau wedi llofnodi'r cytundebau erbyn diwedd Medi 2016.

50 Ym mis Hydref 2016, derbyniodd y Bwrdd Iechyd gydnabyddiaeth yn y Gwobrau Rheolaeth Ariannol Gofal Iechyd blynyddol am ei waith yn datblygu Fframwaith Sicrwydd Ariannol, a dylai hyn roi sicrwydd gwell a mwy systemaidd i'r Pwyllgor Archwilio. Er mai newydd ddechrau y mae, mae'r fframwaith yn addawol ac fe ddylai fod yn ffynhonnell effeithiol arall o sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio.

51 Mae gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Archwilio ran weithredol yn y fframwaith rheoli ariannol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn adolygu adroddiadau cydymffurfio ariannol chwarterol sydd yn datgan sut y cydymffurfir â gweithdrefnau caffael, cyflogres, derbyniadwy, taladwy a cholledion a thaliadau arbennig.

52 Mae'r Archwilwyr Mewnol yn adolygu systems ariannol rheoledig y Bwrdd Iechyd a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) dan eu cynllun craidd blynyddol. Daeth yr Archwilwyr Mewnol i'r casgliad fod archwiliadau o systemau ariannol y Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau fod system gadarn o gamau rheoli mewnol yn bodoli.

### Mae gwybodaeth ariannol briodol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd fel sail i wneud penderfyniadau a chefnogi camau unioni os bydd angen

53 Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn bwysig os yw cyrff iechyd am gyflwyno gwell deilliannau iechyd, gwasanaethau a gwerth am arian. O ganlyniad, cynhaliais ddadansoddiad cymharol o gynnwys adroddiadau ariannol yng nghyrff y GIG yng Nghymru. Canfûm fod adrodd ariannol y Bwrdd Iechyd yn rhoi mewnwelediad

gwerthfawr, ac yn cymharu'n ffafriol â chyrff eraill y GIG yng Nghymru o ran y canlynol:

- rhagfynegi meysydd allweddol megis sefyllfaoedd refeniw, cyfalaf ac arian bob blwyddyn; ac
- roedd nodi targedau ac adrodd yn eu herbyn wedi ei gynnwys yn y rhan fwyaf o adroddiadau.

54 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu canlyniadau monitro misol i Lywodraeth Cymru ac adroddiadau ariannol mewnol sy'n cael eu hystyried yng nghyfarfodydd misol y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd. Mae'r adran gyllid yn cwblhau ei brosesau adrodd diwedd mis o fewn pum diwrnod gwaith i ddiwedd y mis, gydag adroddiadau canlyniadau monitro Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflwyno erbyn y nawfed dydd o bob mis.

55 Canfu fy adolygiad o adroddiad cyllid mis 2 ei fod wedi ei strwythuro'n dda a bod y wybodaeth a ddarparwyd yn gyson a dibynadwy. Yr oedd yr adroddiad yn hawdd ei ddarllen gyda negeseuon allweddol yn cael eu hategu gan fanylion yn deillio o'r adroddiad cryno, oedd yn cynnwys dashfwrdd ar gyfer targedau ariannol allweddol. Mae'r adroddiad hefyd yn gosod allan yn glir ddyletswyddau ariannol statudol gan gynnwys y sefyllfa gronnus dros gyfnod o dair blynedd yng nghyd-destun y Ddeddf a mesurau arbennig. Gwelais ddefnydd da o dablau a graffeg i ddangos perfformiad, eithriadau, tueddiadau a meysydd risg, a darparwyd tabl llawn gwybodaeth yn gosod allan y risgiau i'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

56 Adroddir am wybodaeth ariannol i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn amserol, fel rheol ym mhedwaredd wythnos y mis dilynol. Serch hynny, gellir gwella prydlondeb adroddiadau cyllid a gyflwynir i'r Bwrdd. Mae hyn ar hyn o bryd yn cael ei bennu gan y cylch busnes sydd, yn briodol, yn mynnu bod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar yr adroddiadau cyn i'r Bwrdd eu hystyried. Fodd bynnag, gwelais fod lle i wella amseru adrodd i'r Bwrdd gan fod adroddiad cyllid mis 2 wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 21 Gorffennaf 2016, 51 diwrnod wedi diwedd y cyfnod adrodd ariannol.

57 Byddaf yn cyhoeddi adroddiad mwy manwl ar wahân gyda dadansoddiad cymharol o adroddiadau ariannol a rennir gyda chyrff y GIG yn gynnar yn 2017.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn gosod rhai sylfeini cadarn i sicrhau ei ddyfodol, ac y mae cyflymdra'r newid yn cynyddu, er bod cryn waith i'w wneud eto mewn meysydd pwysig

58 Mae fy ngwaith llywodraethiant a sicrwydd wedi asesu trefniadau cynllunio strategol ac adrodd y Bwrdd Iechyd a'r agwedd ar gyfer datblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd i'r bwrdd. Yr wyf hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a'i strwythurau llywodraethiant a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion strwythuredig blaenorol a materion gwella.

### Mae strategaeth newydd a fframwaith cynllunio newydd addawol ar gael bellach, er yr erys pryderon am y gallu i gwrdd ag amserlen gynllunio'r Bwrdd Iechyd yn ogystal â'r gallu cyffredinol i gyflwyno moderneiddio a newid y gwasanaeth

59 Amlygodd fy asesiadau strwythurol a'm gwaith adolygu ar y cyd y bylchau mewn cynlluniau strategol, a'r heriau ynghylch datblygu strategaeth glinigol integredig y cytunir arni. Ers diwedd 2015, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei allu cynllunio.

60 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi symud ymlaen mewn nifer o ffyrdd allweddol yn ei hagwedd newydd tuag at strategaeth a chynllunio, gyda'r Bwrdd ei hun yn cymryd rhan weithredol. Cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith gynllunio, seiliedig ar gyfres o egwyddorion dylunio a addaswyd o Fframwaith Monitor. Mae'r model hwn yn cynnwys elfennau o gyd-gynllunio, cynllunio senario seiliedig ar dystiolaeth, canolbwynt cryf ar ymwneud, ac agweddau o wireddu manteision.

61 Mae'r Bwrdd Iechyd yn awr yn defnyddio model cynllunio wedi'i ddosbarthu, gyda hwyluso canolog, templedi a sicrhau ansawdd cynlluniau gweithredol. Mae'r timau is-adrannol (ardal ac aciwt) ar hyn o bryd yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau am 2017. Mae'r berthynas rhwng timau gweithredol a chynllunio yn dechrau datblygu.

62 Yn ystod 2016, datganodd y Bwrdd yn gyhoeddus y weledigaeth lefel-uchel am y Bwrdd Iechyd. Y mae cynllun clir, cytunedig ar y cyd i ddatblygu strategaeth i'r sefydliad cyfan, a strategaethau cefnogi. Mae'r agweddau cynllunio hyn yn cynnwys cerrig milltir a dyddiadau allweddol, ac yn cymryd agwedd gynhwysol sy'n dwyn i mewn y staff a phartneriaid. Mae cyfres gyflin o ffrydiau gwaith wrthi er mwyn datblygu ac ehangu'r cysyniad o 'sut beth fydd y gwasanaethau'. Mae'r rhain yn cynnwys y strategaeth gyffredinol, Cadw'n Iach, Byw'n Dda, a strategaethau cefnogi mwy manwl ar gyfer meysydd allweddol megis Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol, Ystadau, Mamolaeth, gwasanaethau Plant, a gwasanaethau Pobl Hŷn. Bydd angen llunio modelau gwasanaeth at y dyfodol i gwrdd â'r galw a bod yn gynaliadwy ar yr un pryd o safbwynt gweithlu ac adnoddau ariannol.

63 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dysgu o'i brofiadau ynghylch gwasanaethau mamolaeth yn 2015, ac y mae'n adeiladu ar y gwersi hyn, ac yn mabwysiadu arddull mwy agored a thryloyw dan arweiniad y Prif Weithredwr i adfywio'r ffordd mae'n ymwneud â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi adfywio'r ffordd y mae'n ymwneud â'i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'i Fforwm Proffesiynau Iechyd.

64 Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei agwedd at ymwneud â'r staff. Mae Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol yn arwain ffrwd waith ar ymwneud clinigol, ond dyddiau cynnar y datblygiad yw'r rhain. Fel rhan o'r strategaeth a'r cynllun ehangach ymwneud â'r staff, mae mecanweithiau eraill i ddwyn y staff i mewn yn well yn cael eu defnyddio'n eang, megis briffiadau ffrydio, blogiau a llythyrau newyddion y prif weithredwr, cerdded o gwmpas a mwy o bwyslais, trwy ffyrdd rheoli gweithredol, ar fantoli staff.

65 Mae'r fframwaith newydd ar gyfer strategaeth a chynllunio yn addawol, er nad yw eto wedi cyflwyno'r gyfres glir o gynlluniau sydd ei angen i gefnogi nodau strategol y sefydliad a nodi modelau cyflwyno gwasanaeth sy'n glinigol ac ariannol gynaliadwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gynllun blynyddol am 2017-18, ond gyda'r bwriad o gyflwyno Cynllun Tymor Canol Integredig y gellir ei gymeradwyo yn gynnar yn 2018 ar gyfer cyfnod 2018-2021. Mae'r amserlen i ddatblygu'r strategaeth yn dynn, ac fe'i hadolygwyd yn bwrpasol eisoes i ganiatáu ymgorffori'r adborth o ymarferiad gwrando Llywodraeth Cymru i'r gwaith o ddatblygu strategaeth ac osgoi dyblygu. Mae hyn yn golygu, yn y pen draw, os na fydd y gwaith ymwneud a datblygu strategaeth yn bwrw ymlaen mewn pryd, efallai na chwblheir y Cynllun Tymor Canol Integredig na chytuno arno erbyn diwedd Mawrth 2018.

66 Her allweddol arall i'r Bwrdd Iechyd yw'r gallu i reoli newid. Wrth i strategaeth a chynlluniau gael eu cymeradwyo, bydd angen iddynt gael eu cyflwyno a'u cefnogi gan ddigon o allu a chapasiti rheoli newid. Ddiwedd 2014, comisiynodd y Bwrdd Iechyd Swyddfa Rheoli Rhaglenni allanol, gyda chefnogaeth tîm gwella gwasanaeth mewnol. Mae swyddogaeth y Swyddfa Rheoli Rhaglenni yn canoli ar wella perfformiad a gwaith ariannol, ond nid ar brosiectau cymhleth i drawsnewid gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd angen gallu a chapasiti ychwanegol i gefnogi cyflwyno'r newid.

## Mae effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn gwella, er bod angen mwy o waith i fireinio fframwaith sicrwydd y bwrdd

67 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfûm:

- fod y Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo ei drefniadau sicrwydd y bwrdd ac yn datblygu Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol ar y cyd fel ateb interim pragmataidd yn niffyg Cynllun Tymor Canol Integredig y cytunwyd arno; ac
- yn 2016, gwellodd effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau, gyda thystiolaeth o well craffu a herio.

68 Mae mapio sicrwydd[2] yn erfyn a ddefnyddir yn gynyddol i adnabod a mapio yn systemaidd y sicrwydd sydd ei angen ynghylch risgiau allweddol er mwyn cyrraedd amcanion y sefydliad. Bu'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei system o sicrwydd a'i ddealltwriaeth o ystyr hyn dros y blynyddoedd diwethaf. Bu'r Bwrdd ei hun yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu a lleisio ei ddiben, gweledigaeth a nodau strategol. Datblygwyd y rhain trwy sesiynau datblygu'r bwrdd a'u cyfleu trwy ddigwyddiadau ymwneud.

69 Ar y cyd â'i waith ar strategaeth a datblygu Cynllun Tymor Canol Integredig am 2018, mae'r Bwrdd yn parhau i weithio ar ei amcanion corfforaethol a fydd yn sail o wybodaeth i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Yr oedd yr amserlen ar gyfer hyn yn golygu y penderfynodd y Bwrdd fod arnynt angen ateb interim, hyd nes i'w

[2] Trysorlys EM, **Assurance Frameworks**, Rhagfyr 2012.

waith ymwneud a strategaeth ddatblygu darlun digon manwl o sut beth fydd gwasanaethau yn y dyfodol. Yr ateb interim hwn yw'r Fframwaith Sicrwydd Risg Corfforaethol. Mae'r  Fframwaith Sicrwydd Risg Corfforaethol, a ddatblygwyd gyda chyfraniad sylweddol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, yn mapio'r risgiau pwysicaf i gyflwyno gwasanaethau diogel a chynhwysfawr ac iechyd y boblogaeth yn erbyn y camau sicrhau, camau rheoli, a gweithredoedd lliniaru, a neilltuo pwyllgor penodol ar gyfer monitro.

70 Mae'r Bwrdd wedi lleisio ei awydd am risg, a adnewyddwyd ganddo yn 2016. Mae'n deall pa lefel o risg mae'n barod i oddef, a sut y bwriada liniaru a rheoli risgiau a phroblemau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd yn gwybod am y risgiau allweddol ac yn eu deall, ond ni all fod yn sicr y delir yr holl fygythiadau a'r risgiau hyd nes bydd yr holl strwythurau rheoli gweithredol yn llawn a bod y strategaeth rheoli risg diwygiedig ar waith.

71 Amlygodd fy ngwaith blaenorol broblemau gydag effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau, ac y mae nifer o welliannau i'r agweddau hyn o lywodraethiant yn rhan o gynllun gwella llywodraethiant mesurau arbennig y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd wedi adolygu ei strwythur pwyllgorau, ac wedi bwrw ymlaen ar brosesau allweddol, gyda dogfennau ar ffurf safonedig newydd, a threfniadau i'w cefnogi.

72 Mae fy arsylwadau cyson yn y Bwrdd a'r pwyllgorau, a'm harolwg o aelodau'r bwrdd yn dangos aeddfedrwydd a hyder cynyddol yn nhrefniadau'r bwrdd a'r pwyllgorau. Mae pob pwyllgor wedi adolygu a mapio cynlluniau gwaith blynyddol. Wrth i 2016 fynd rhagddo, dangosodd fy arsylwadau fod y Bwrdd yn gynyddol yn siarad ac yn gweithredu fel tîm, gan ddangos cydlyned, cysondeb ac aeddfedrwydd wrth drafod a gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol, ac yn dangos newid mawr ers fy ngwaith cychwynnol ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn 2013.

73 Mae'r Grŵp Rheoli Busnes Pwyllgorau yn sicrhau fod busnes y pwyllgorau yn cael ei gydgordio yn effeithiol, yn cefnogi llif cyson o sicrwydd, ac yn sicrhau croesgyfeirio priodol rhwng pwyllgorau. Cynhaliodd y Bwrdd gylch llawn o sesiynau datblygu'r bwrdd a briffiadau i'r bwrdd. Bwriad y sesiynau hyn, nad ydynt yn rhai cyhoeddus, yw gofalu fod gan y bwrdd llawn ddigon o wybodaeth am themâu a heriau allweddol a all ymddangos, a rhoi lle i drafod ac ymchwilio i'r heriau sydd ar y gorwel.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau mewn ymateb i argymhellion blaenorol fy asesiad strwythuredig, er yr erys rhai camau pwysig heb eu cymryd eto

74 Yn 2015, gwnaeth fy asesiad strwythuredig chwech o argymhellion ynghylch rheoli argymhellion , datblygu agwedd ragweithiol i gyfathrebu â rhanddeiliaid, cynllunio strategol, llywodraethu gwybodaeth a'r gallu i reoli newid. Cwblhawyd pump o'm hargymhellion dros y 12 mis diwethaf, a'r unig faes nas cwblhawyd yw'r un yn ymwneud â'r gallu i reoli newid.

75 Yn ychwanegol at adolygu'r camau a gymerwyd i ymdrin ag argymhellion fy asesiad strwythuredig yn 2015, ystyriais hefyd effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i ymateb i argymhellion fy archwiliad. Cefais fod trefniadau diwygiedig y Bwrdd Iechyd i fonitro'r argymhellion gweithredu bellach wedi eu gwreiddio. Caiff adroddiad olrhain sydd yn nodi statws argymhellion ei ystyried ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor archwilio, ac fe'i defnyddir i herio cyflymder ymateb y rheolwyr. Er hynny, nid yw'n glir bob tro a yw'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r argymhellion o hyd wedi ymdrin â'r problemau sylfaenol a nodwyd mewn adroddiadau.

## Mae fy ngwaith o archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn meysydd allweddol

76 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'm rhaglen waith archwilio perfformiad lleol ac a orchmynnwyd yr adroddais arno dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau o gyfarpar meddygol a threfniadau rheoli contractau meddygon ymgynghorol.

### Mae fy ngwaith ar gyfarpar meddygol wedi gweld fod gwaith cynnal beunyddiol cyfarpar meddygol yn cael ei reoli yn weddol dda, ac y mae systemau effeithiol seiliedig ar risg ar gyfer blaenoriaethu gwariant cyfalaf. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer cyfarpar cost isel mor glir, ac nid oes gan y Bwrdd Iechyd stocrestr ddiffiniol o gyfarpar meddygol

77 Y mae strwythur uwch-reoli glir ar gyfer cyfarpar meddygol wedi'i gefnogi gan y Grŵp Goruchwylio Dyfeisiadau Meddygol, y Grŵp Cyfalaf Dyfeisiadau Meddygol, ac Ardal Dyfeisiadau Meddygol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu trefniadau i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â chyfarpar meddygol ar lefel weithredol, ond nid yw risgiau strategol yn wastad yn cael eu dwysau yn gyflym. Y mae systemau ar gael yn strwythur y grwpiau cyfarpar meddygol i adnabod tueddiadau posib mewn digwyddiadau, ac i ymchwilio a chymryd camau lliniaru lle bo angen. Er hynny, ffocws cyfyngedig sydd ar gyfarpar meddygol o fewn y gofrestr risg corfforaethol gyffredinol. Yn hanesyddol, ni fu cyfathrebu o fewn y Bwrdd Iechyd yn wastad yn effeithiol, ac achosodd hyn oedi cyn cydnabod rhai risgiau gweithredol allweddol ar lefel strategol. Un enghraifft o hyn yw'r angen i gydgordio adnewyddu'r dosbarthwr robotaidd fferyllol gyda gwaith adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd.

78 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei gyllideb gyfalaf ddewisol yn effeithiol i flaenoriaethu cyfarpar meddygol newydd ac adnewyddu cyfarpar, ond yn achos eitemau is eu cost, nid yw'r trefniadau mor glir ac nid oes un stocrestr o bob eitem. Mae bidiau am gyllid dewisol ar gyfer cyfarpar meddygol yn cael eu cyflwyno'n flynyddol, ac y mae proses glir o flaenoriaethau wedi'i gysylltu â risg glinigol. Y mae blaengynllunio hefyd yn digwydd ar sail pum mlynedd. Fodd bynnag, nid oes un stocrestr o gyfarpar meddygol yn y Bwrdd Iechyd. Eitemau cyfalaf yn unig a ddelir gan gofrestr asedau'r Bwrdd Iechyd (h.y., y rhai dros £5,000) ac y mae'r darlun dan £5,000 yn llai clir. Mae diffyg un ffynhonnell o wybodaeth stocrestr

gyflawn yn ei gwneud yn anodd pennu costau yng nghyswllt cyfarpar a ddaeth i derfyn ei oes.

79 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau gweddol effeithiol i gynnal cyfarpar meddygol, ond gallai ei llyfrgell gyfarpar fod yn fwy effeithiol ac wedi ei safoni ar draws y Bwrdd Iechyd trwy rannu arfer da ar draws safleoedd. Mae'r Adran Beirianneg Electro-Biofeddygol yn rheoli cyfarpar meddygol yn dda, ac er bod gwaith cynnal wedi cronni, dywed staff yr ysbyty fod lefelau uchel o foddhad â'u gwasanaeth. Fodd bynnag, am nad yw'r holl gyfarpar wedi ei gofnodi ar eu system gynnal, mae perygl i ddiogelwch cleifion os na ŵyr y Bwrdd Iechyd a yw'r holl gyfarpar dan £5,000 yn cael ei gynnal neu ei galibro yn iawn.

## Gwnaeth y Bwrdd Iechyd beth cynnydd gyda chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, ond ni chafodd yr un o'm hargymhellion cenedlaethol na lleol blaenorol eu gweithredu yn llawn

80 Daeth Contract diwygiedig Meddygon Ymgynghorol GIG Cymru (y contract), i rym ar 1 Rhagfyr 2003. Dywed y contract y dylai cynllun swydd meddyg ymgynghorol gael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau fod cynlluniau swyddi yn ystyried newid ym mhatrymau cyflwyno gwasanaethau, esblygiad amcanion sefydliadol a phersonol, a gwelliannau mewn technoleg ac arfer meddygol.

81 Ar 31 Mawrth 2015, adroddodd y Bwrdd Iechyd fod gan 70 y cant o feddygon ymgynghorol gynllun swydd, ac o'r rhain, fod 86 y cant wedi eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Dangosodd fy ngwaith diweddar fod y Bwrdd Iechyd wedi darparu hyfforddiant cynllunio swydd yn y gorffennol, wedi ei anelu at reolwyr clinigol a rheolwyr eraill. Fodd bynnag, ni fedrodd y Bwrdd Iechyd gadarnhau pryd y digwyddodd yr hyfforddiant hwn, ac nid oedd dyddiad ar y deunyddiau hyfforddi a adolygwyd gennym. Barn gyffredinol y sawl a gyfwelwyd oedd nad oedd agwedd y Bwrdd Iechyd at hyfforddiant cynllunio swyddi yn systemaidd a dywedodd llai na hanner y meddygon ymgynghorol a ymatebodd i'm harolwg diweddar fod ganddynt gyfarwyddyd clir ar y broses o gynllunio swyddi.

82 Dywed y contract yn glir y dylai meddygon ymgynghorol gytuno ar gyfres briodol o ddeilliannau, perthnasol i'r arbenigedd. Dylai cyrraedd deilliannau fod yn ffactor allweddol ym marn y rheolwr clinigol fod yr adolygiad o'r cynllun swydd yn foddhaol, neu'n anfoddhaol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd trafodaethau seiliedig ar ddeilliannau, ac wedi pwysleisio hyn wrth reolwyr clinigol a chyffredinol. Fodd bynnag, dangosodd fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd lawer i'w wneud cyn y daw'r arfer o drafod, gosod a chofnodi deilliannau yn ystod cynllunio swydd ddod yn fater o dref. Yn fy adolygiad manwl o sampl o 20 o gynlluniau swydd, ni ddaethom o hyd i unrhyw rai oedd yn cynnwys tystiolaeth o ddeilliannau na thrafodaethau am ddeilliannau.

83 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli mantoli yn well o lawer na chynllunio swyddi, ac yn aml nid yw'r ddwy broses yn aml yn gweithio ynghyd fel y dylent. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'r System Fantoli ac Ail-ddilysu Feddygol, ac ym Mawrth

2015 adroddwyd fod 86 y cant o feddygon ymgynghorol wedi derbyn mantoli blynyddol o fewn y 12 mis a aeth heibio.

84 Yr oedd f'adroddiad yn 2013 yn argymell y dylai fod gan bob corff iechyd brosesau monitro cynllunio swyddi; fodd bynnag, nid yw'r trefniadau presennol yn y Bwrdd Iechyd yn ymddangos yn gadarn. Dylai cyflwyno system electronig newydd o gynllunio swyddi roi i'r Bwrdd Iechyd broses safonol o gynllunio swyddi a dull o roi sicrwydd am ansawdd y prosesau hyn, nad yw'n bod ar hyn o bryd.

85 Nod allweddol y contract yw hwyluso gweithio agosach rhwng rheolwyr iechyd a meddygon ymgynghorol i wella ansawdd y gwasanaeth a bod o les i gleifion. Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd Iechyd beth ffordd i fynd i wneud hyn yn arfer cyffredinol. Yn fy arolwg o feddygon ymgynghorol, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn trafod moderneiddio gwasanaethau, nac yn meddwl y gallent drafod camau i wella arfer clinigol. Fe gawsom hefyd fod gormod o gyfarfodydd cynllunio swyddi nad oeddent yn trafod y deilliannau na'r hyn oedd yn dod allan o gefnogi gweithgareddau proffesiynol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 3: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwiliad blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwiliad ariannol** | |
| Yr hyn a gyflwynwyd yn Archwiliad y Cyfrifon Terfynol | Chwefror 2016 |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | Mai 2016 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Adroddiad o Archwiliad Datganiadau Ariannol Elusennau | Tachwedd 2016 |
| Barn am Ddatganiadau Ariannol Elusennau | Tachwedd 2016 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad Dilynol o Gontract Meddygon Ymgynghorol | Medi 2016 |
| Asesiad Strwythuredig 2016 | Ionawr 2017 |
| Cyfarpar Meddygol | Medi 2016 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2016 | Mawrth 2016 |

Arddangosyn 4: gwaith archwilio perfformiad sydd yn dal yn cael ei wneud

| Adroddiad | |
|---|---|
| Adolygiad o Wasanaethau Radioleg | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o Wasanaethau Meddygon Teulu tu allan i Oriau | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o Gynllunio Rhyddhau | Gorffennaf 2017 |
| Dilyniant cleifion allanol – diweddariad ar gynnydd | Ebrill 2017 |
| Adolygiad o Ystadau | Mehefin 2017 |

# Atodiad 2

## Ffî archwilio

Yr oedd Cynllun Archwilio 2016 yn gosod allan y ffî archwilio arfaethedig o £462,953 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r union ffî, ar y sail fod peth gwaith wrthi'n cael ei wneud o hyd, yn unol â'r ffî a osodwyd allan yn yr amlinelliad.

Cynhwysir yn y ffî uchod y gwaith a wnaed yng nghyswllt cydwasanaethau a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Bartneriaeth Cydwasanaethau.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio arwyddocaol

Arddangosyn 5: risgiau archwilio arwyddocaol

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a deilliant |
|---|---|---|
| Mae'r risg y bydd y rheolwyr yn gwrthwneud camau rheoli yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd nad oes modd rhagweld sut y gallai'r fath wrthwneud ddigwydd, fe'i gwelir fel risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• rhoi prawf ar briodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifo i weld a oes tuedd neu ragfarn; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i drefn arferol busnes. | Cwblheais brofion archwilio gyda chanolbwynt fel y bwriadwyd ar feysydd perthnasol y datganiadau ariannol. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o farn nac amcangyfrifon rhagfarnllyd. |
| Mae risg gynhenid o gam-ddatgan sylweddol oherwydd twyll mewn cydnabod refeniw ac o'r herwydd, mae hyn yn cael ei drin fel risg arwyddocaol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried pa mor gyflawn yw incwm amrywiol. | Cwblheais waith archwilio fel y cynlluniwyd ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o gamddatganiadau sylweddol oherwydd twyll yng nghydnabod y refeniw. |
| Fe all fod risg arwyddocaol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chwrdd â'i ddyletswyddau ariannol statudol. Fodd bynnag, nid yw'n glir yn y cyfnod hwn beth fydd y dyletswyddau ariannol statudol hynny; bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau toc.<br>Dangosodd y sefyllfa mis 9 ddiffyg blwyddyn-hyd-yma o £16.6 miliwn a rhagolwg o ddiffyg diwedd-blwyddyn o £19.7 miliwn. Gallaf ddewis gosod adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant a'r amgylchiadau lle digwyddodd.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gallai fod rhagfarn ym marn ac amcangyfrifon y rheolwyr mewn ymdrech i gyflawni unrhyw ddyletswyddau ariannol a osodwyd. | Bydd fy nhîm archwilio yn cynnal prawf ar ddyletswyddau ariannol y Bwrdd Iechyd. | Adolygais drefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, problemau ariannol arwyddocaol oedd yn dal yn bodoli, a meysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys cydbwysedd ariannol. Er na fesurir y Bwrdd Iechyd yn erbyn gofynion Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 tan 2016-17, yr oedd disgwyl iddo reoli ei arian er mwyn gofalu na fydd yn gorwario yn erbyn ei ddyraniad refeniw a chyfalaf blynyddol. Adroddodd y Bwrdd Iechyd am orwario yn erbyn y dyraniad adnoddau o £19.5 miliwn. |

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a deilliant |
|---|---|---|
| Mae risg arwyddocaol y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau difrifol ar sefyllfa ei arian ar ddiwedd y flwyddyn. Nododd yr adroddiad monitro ym mis 9 ragolwg o ddiffyg /cydbwysedd arian ar ddiwedd y flwyddyn o £19.7 miliwn.<br>Mae diffyg arian yn debyg o beri y bydd amseroedd talu credydwyr yn hwy ac fe fydd hyn yn cael effaith andwyol ar berfformiad y Polisi Perfformiad Sector Cyhoeddus (PPSC). | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r perfformiad PPSC gan gadw mewn cof y pwysau ariannol ar y Bwrdd Iechyd. | Cwblheais brofion archwilio gyda chanolbwynt ar berfformiad PPSC, ac er i'r Bwrdd Iechyd fethu â chyrraedd ei darged o dalu nifer y credydwyr heb fod yn rhai'r GIG ymhen 30 diwrnod o'u cyflwyno, deuthum i'r casgliad y datganwyd eu perfformiad yn gywir ym mhob ffordd berthnasol. |
| Mae risg na fydd y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion sy'n deillio o'm hadolygiad dilynol o gaffael yn 2015. | Bydd fy nhîm archwilio yn asesu cynnydd wrth weithredu fy argymhellion a ddeilliodd o'm hadolygiad dilynol fel sail o wybodaeth i'm barn am reoleidd-dra. | Cynheliais ddilyniant ar faterion caffael, a dod i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'r argymhellion a wneuthum yn 2015. Fe nodais fwy o gyfleoedd i gryfhau'r trefniadau ar gyfer defnyddio ffurflenni Ildio Hawliau Tendr Sengl a sut yr adroddir am y rhain yn adroddiad Cydymffurfio Ariannol y Bwrdd Iechyd. |
| Nodais nifer o ddatgeliadau fel rhai sylweddol eu natur. Mae'r rhain yn cynnwys datgelu Partion Cysylltiol a'r nodyn Cydnabyddiaeth, yn enwedig y gydnabyddiaeth a dalwyd i'r cyn-Brif Weithredwr, a adawodd ei swydd i fanteisio ar secondiad. | Byddaf yn cynllunio profion manwl i gael y sicrwydd angenrheidiol fod datgeliadau a nodwyd fel rhai sylweddol eu natur yn gyflawn, yn gywir ac yn unol â gofynion y Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. | Cwblheais brofion archwilio gyda chanolbwynt yn ôl y cynllun ar y datgeliadau a dybiwyd sy'n berthnasol. Deuthum i'r casgliad fod y datgeliadau yn gyflawn, yn gywir ac yn unol â gofynion y Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru